| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **BWRDD Y CYNGOR** |
| **DYDDIAD** | **29 GORFFENNAF 2008** |
| **TEITL** | **POLISI TRETHIANT** |
| **ARGYMHELLIAD** | **Argymell i'r Cyngor y dylid mabwysiadu polisi trethiant fyddai'n cyfyngu cynnydd yn y Dreth Gyngor dros gyfnod 4 blynedd y Cyngor i fand fyddai'n gyfystyr i -1% i +1% y flwyddyn o'r cyfartaledd cynnydd ar draws Cymru**. |
| **AWDUR** | **DILWYN WILLIAMS**<br>**CYFARWYDDWR STRATEGOL ADNODDAU** |
| **ARWEINYDD PORTFFOLIO** | **Y CYNGHORYDD DYLAN EDWARDS** |

**Cefndir**

1 Yn 2004, fel rhan o'r ymgais i gynllunio i'r tymor canolig fe fabwysiadodd y Cyngor bolisi trethiant oedd yn gosod y cyd-destun ar gyfer y gyllideb am y 4 blynedd i ddod.

2. Y polisi yma oedd yn gosod yr addewid i'r trethdalwyr wrth geisio taro balans rhwng yr angen i wario ar wasanaethau ar y naill llaw a'r angen i drethdalwyr dalu am y gwasanaethau hynny ar y llaw arall.

3 Sefydlodd y Cyngor y polisi canlynol -
"Mabwysiadu polisi trethiant fyddai'n cyfyngu cynnydd yn y Dreth Gyngor i fand yn gyfystyr a –1% hyd +2% y flwyddyn o'r cyfartaledd cynnydd yn y Dreth Gyngor ar draws Cymru, i'w fesur dros fywyd y Cyngor; ac ymdrin â cholledion grant dros £300,000 y tu allan i'r polisi yma."

4 Drwy hyn felly, os oedd y Cyngor yn dymuno cynyddu'r Dreth Gyngor 4% yn y flwyddyn gyntaf a'i fod yn darganfod wedyn mai 3.5% oedd y cynnydd cyfartalog ar draws Cymru, byddai wedi cynyddu +0.5% sydd o fewn y polisi. Os mai 1% oedd y cyfarteledd byddai wedi cynyddu +3% (sydd 1% uwchben yr uchafswm o 2%) byddai angen iddo gyfyngu'r uchafswm cynnydd yn y flwyddyn ganlynol i 1% uwchben y cyfartaledd (sef y +2% uchafswm arferol llai'r 1% a gynyddwyd yn ormod yn y flwyddyn flaenorol).

5 Dros oes y Cyngor diwethaf, nodir isod y perfformiad yn erbyn y polisi –

| | **04/5** | **05/6** | **06/7** | **07/8** | **Oes** |
|---|---|---|---|---|---|
| Gwynedd | 3.9% | 8.8% | 4.8% | 4.8% | 24.2% |
| Cymru | 4.6% | 4.5% | 4.3% | 4.3% | 18.9% |

6 Dros oes y Cyngor diwethaf felly 'roedd y Dreth Gyngor wedi cynyddu 24.2% yn erbyn cyfartaledd Cymru o 18.9% neu cynnydd sy'n cyfateb i +1.19% y flwyddyn

sydd o fewn ffiniau'r polisi.

7 Mewn gwirionedd, mae'r sefyllfa uchod yn cynnwys dygymod gydag effaith colli bron i £3m mewn grant gan y Cynulliad yn 2005/6 ac o gofio nad oedd y polisi ond i fod i ddygymod a gostyngiadau grant llai na £300,000, pe byddem wedi anwybyddu unrhyw golled uwchben £300,000 byddai'r perfformiad wedi bod yn agosach at -1% y flwyddyn.

**Polisi Trethiant**

8 Incwm y Cyngor yw'r cyfyngiad pennaf ar allu'r Cyngor i fuddosddi yn ei wasanaethau. ac yn sylfaenol, dwy elfen o sylwedd sydd yna i'r incwm yma sef Grant Cynnal Refeniw cyffredinol Llywodraeth y Cynulliad a'r Dreth Gyngor.

9 Yn 2008/9 mae gan y Cyngor wariant net (ar ol tynnu incwm ffioedd a gwariant a ariennir o reserfau) o £207.6m a daw £163.3m o'r swm yma mewn grant oddi wrth Llywodraeth y Cynulliad, gyda £44.3m yn dod o'r Dreth Gyngor.

10 Ni all y Cyngor ddylanwadu'n uniongyrchol ar lefel y Grant Cyffredinol a geir gan Lywodraeth y Cynulliad. Mae modd dylanwadu'n anuniongyrchol arno wrth gwrs drwy herio elfennau o'r fformiwla a cheisio sicrhau ei fod yn cynnwys y ffactorau y dylid eu cynnwys. Yn hanesyddol mae'r Cyngor wedi bod yn brwydro'n galed i herio nifer o elfennau o'r fformiwla ac wedi llwyddo mewn rhai meysydd ac yn parhau i frwydro mewn meysydd eraill.

11 O'r herwydd, yr unig elfen "dewisol" sydd ar gael i ni er mwyn talu am wasanaethau'r Cyngor yw'r Dreth Gyngor.

12 Yn hyn o beth felly, mae angen polisi trethiant arnom er mwyn gosod fframwaith ar gyfer cynllunio tymor canolig. Y dewis arall fyddai penderfynu ar y Dreth o flwyddyn i flwyddyn ond nid yw hynny yn rhoi unrhyw sicrwydd i drethdalwyr y sir ynglyn a beth y gallasent ddisgwyl yn y pedair blynedd i ddod. Mae sefydlu polisi trethiant hefyd yn gymorth wrth gynllunio'n ariannol i'r tymor canolig, gan ei fod yn gosod cyd-destun i'r incwm sy'n debygol o fod ar gael i gyllido gwasanaethau.

**Beth yw'r dewisiadau?**

13 Fe ddylai'r polisi trethiant adlewyrchu agwedd y Cyngor tuag at y pwyslais i'w roddi ar wario ar wasanaethau ar y naill llaw a'r ffaith fod disgwyl i drethdalwyr dalu am y gwasanaethau hynny ar y llaw arall.

14 Pe byddai'r Cyngor o'r farn y dylai gwasanaethau gael blaenoriaeth heb gymeryd unrhyw ystyriaeth o'r oblygiadau i'r trethdalwyr, yna fe fyddai'r polisi trethiant yn cael ei yrru gan y gwariant ac ni fyddem yn ystyried unrhyw gyfyngiad.

15 Ar y pegwn arall, pe byddai'r Cyngor yn dymuno cyfyngu ar yr effaith ar y trethdalwyr heb ystyried yr effaith ar wasanaethau, yna fe ellid gosod polisi trethiant fyddai'n cyfyngu ar y cynnydd yn y Dreth Gyngor i ffigwr penodol (er enghraifft 1/2/3/4% neu ei gysylltu i gyfradd chwyddiant cyffredinol dyweder).

16 Fodd bynnag, ni fyddai'r naill bolisi na'r llall yn ceisio taro balans rhwng gwariant a threthiant.

17 Byddai modd i'r Cyngor wneud hynny drwy sefydlu polisi fyddai'n cyfyngu cynnydd yn y Dreth Gyngor i fand penodol gan adael hyblygrwydd yn y penderfyniad terfynol er mwyn medru cymeryd yr angen i wario yn erbyn yr effaith ar y dreth i ystyriaeth.

18 Nid gwariant y Cyngor yn unig sy'n medru dylanwadu ar lefel y Dreth Gyngor wrth gwrs oherwydd yr hyn a elwir yn effaith gerio.

19 Gan fod Grant y Cynulliad tua 4 gwaith yn fwy na'r swm a geir gan y trethdalwr, os nad yw'r grant hwnnw yn gyson gyda'r cynnydd yng nghostau'r Cyngor mae'n gallu rhoi pwysau sylweddol ar lefel y Dreth Gyngor sydd ei angen fel y nodir yn y tabl isod.

| | **Blwyddyn 1** | **Gwariant +3%** | **Grant yn cynyddu 2%** |
|---|---|---|---|
| **Gwariant** | £200m | £206m | £206m |
| **Grant** | £160m | £164.8m | £163.2m |
| **Treth Gyngor** | £40m | £41.2m | £42.8m (+7%) |

20 Fodd bynnag, mae profiad y gorffennol wedi dangos mai cyfyng iawn mewn gwirionedd yw ein gallu i wneud yn iawn am ddiffyg yn y grant drwy gynyddu'r Dreth Gyngor oherwydd disgwyliadau'r cyhoedd o ran y cynnydd sy'n dderbyniol, a gallu gweinidogion y Cynulliad yn pen draw i gapio unrhyw gynnydd.

## Opsiynau

**21 O grynhoi'r uchod felly dyma fyddai'r opsiynau -**

(1) **Peidio a chyfyngu ar lefelau cynnydd y Dreth Gyngor ar gyfer y dyfodol.**
*Mantais* – Gwarchod Gwasanaethau i'r eithaf.
*Anfantais* – Byrdwn sylweddol o bosibl am ddisgyn ar y Trethdalwyr.

(2) **Cyfyngu cynnydd y Dreth Gyngor yn y dyfodol i ganran penodol.**
*Mantais* – Sicrwydd i'r Trethdalwyr.
*Anfantais* – Perygl os gosodir y ganran rhy isel y bydd yna doriadau uwch na fyddai ei angen fel arall yn y gwasanaethau a ddarperir heb unrhyw gyswllt gyda'r angen i wario. Y Cyngor yn gweithredu fel asiant balansio'r llyfrau yn unig.

(3) **Gosod polisi Treth Gyngor fyddai'n cyfyngu cynnydd yn y Dreth Gyngor i llai na'r cyfartaledd Dreth Gyngor ar gyfer Cymru**.
*Mantais* – Polisi trethiant yn pwyso mwy tuag at y Trethdalwr a chyswllt gyda'r angen i wario ar gyfartaledd ar draws Cymru.
*Anfantais* – Oherwydd y sensitifrwydd y Dreth Gyngor i lefel y grant a geir gan y Cynulliad, gwir berygl na fyddai modd i'r Cyngor ddatblygu meysydd sydd o ddiddordeb ac y byddai'n wynebu toriadau uwch mewn gwasanaethau.

(4) **Gosod polisi Treth Cyngor fyddai'n cyfyngu cynnydd yn y Dreth Gyngor i fand o gwmpas y cyfartaledd cynnydd ar draws Cymru**.
*Maintais* – Cyfyngu ar y byrdwn i'r Trethdalwr tra'n caniatau elfen o hyblygrwydd o ran gwasanaethau.
*Anfantais* – Anodd gweithredu polisi o'r fath fesul blwyddyn gan na wyddom beth fydd y cyfartaledd cynnydd yng Nghymru o flaen llaw ond gellir ei weithredu dros oes y Cyngor drwy edrych yn ol ar y ffigwr cyfartaledd.

**Argymhelliad**

22 Argymhellir y dylid dewis opsiwn 4 fel yr un sy'n taro'r balans priodol rhwng y pendefyniad ar faint sydd angen ei wario ar wasanaethau a faint o fyrdwn fydd yn disgyn ar y trethdalwr.

23 O ran y bandiau, mater o farn yw hynny ynglyn â pha mor bell y mae'r Cyngor yn fodlon amddiffyn gwasanaethau ar draul y trethdalwr.

24 Dangosir y sefyllfa bresennol o ran lefel y Dreth Gyngor yng Ngwynedd yn y graff a geir yn atodiad 1.


25. Ar sail y wybodaeth a roddir yn y graff byddwn yn awgrymu y byddai mabwysiadu band –1% hyd at +1% dyweder yn rhesymol.

26 **Argymhellir** felly fod y Bwrdd yn argymell i'r Cyngor fabwysiadu polisi trethiant fydd yn cyfyngu cynnydd yn y Dreth Gyngor dros gyfnod 4 blynedd y Cyngor i fand fyddai'n gyfystyr i -1% i +1% y flwyddyn o'r cyfartaledd cynnydd ar draws Cymru.

27. Ar sail hyn, ac o gofio y byddai 1% ar y Dreth Gyngor yn cynhyrchu tua £414,660 golyga hyn y byddai gan y Cyngor hyblygrwydd i amrywio'r swm y byddai'n ei gynhyrchu o'r Dreth Gyngor o –£414,660 i +£414,660 o gwmpas y swm y byddem wedi ei gynhyrchu o gynyddu'r Dreth ar raddfa cyfartaledd Cymru.

28. O gofio fod cyllideb net y Cyngor yn £207m mae rhywun yn sylweddoli cyn lleied o sgôp sydd gennym mewn gwirionedd i ddarganfod atebion cyllidol drwy'r Dreth Gyngor.

**Treth Cyngor Cyfwerth Band D holl gynghorau Cymru: Lefel Absoliwt y Dreth**




**2008/9**

**Cyfartaledd Cymru = £871.42   Gwynedd = £889.68   Uchaf = £1,079.82   Isaf = £638.53**

-----------------------------------------------------------------------------------------------------

**A. Barn yr Aelodau Lleol/Views of the Local Member:**

Dim yn fater lleol **:** *Not a local matter*

-----------------------------------------------------------------------------------------------------

**B. Barn y Swyddogion Statudol/The View of the Statutory Officers:**

**1. Prif Weithredwr/Chief Executive:**

Mae'n arfer da ceisio gosod cyfeiriad ar gyfer Polisi Trethiant y Cyngor ond, wrth gwrs, gall hyn fod yn anodd yn sgil effaith anwastad setliadau o du'r Cynulliad ar gyflwr ariannol y Cyngor. Hefyd mae union oblygiadau y math o doriadau y mae'n ofynnol i'r Cyngor ei wneud er mwyn glynu at bolisi o'r fath yn aneglur ar hyn o bryd. Wedi dweud hynny, mae'n amlwg y bydd y goblygiadau hynny yn mynd yn anoddach i'w hwynebu dros amser a rhaid ystyried hyn wrth bennu'r cyfeiriad polisi hwn."

*It is good practice to set a direction for the Council's Taxation Policy, but of course, this can be difficult due to the uneven effect of settlements from the Assembly on the Council's financial position. Also, the actual implications of the nature of the expenditure reductions which the Council will have to make to adhere to such a policy is presently unclear. Having said this, it is obvious that those implications will become more difficult to face over time and consideration must be given to this when setting this policy direction.*

**2. Swyddog Monitro/Monitoring Officer:**

Mae'r argymhelliad yn caniatau elfen o hyblygrwydd i'r Cyngor wrth osod y dreth ac rwy yn cefnogi hyn. Buasai gosod cyfyngiadau rhy gaeth cyn gwybod beth yw'r hinsawdd ariannol sy'n wynebu'r Cyngor yn ei gwneud yn anodd iddo ddod i benderfyniad doeth ar y dreth mewn blynyddoedd i ddod.

*The recommendation allows the Council an element of flexibility in setting the tax and I support this. Placing too stringent a restriction before knowing what financial climate the Council faces will make it difficult for the Council to come to the best decision on the tax in future years.*

**3. Prif Swyddog Cyllid/Chief Finance Officer:**

Mae'r Cyfarwyddwr Strategol - Adnoddau wedi ymgynghori wrth baratoi'r adroddiad ac rwy'n cefnogi'r argymhellion. Gofynnwyd, mewn sesiwn hyfforddi ddiweddar ar gyfer aelodau, am amlinelliad syml o effaith "gerio", a gwelir hynny yma yn rhan 19 o'r adroddiad.

*The Strategic Director – Resources consulted when preparing the report and I support the recommendations. In a recent members training session a request was made for a simple outline of the effect of "gearing" and this can be seen in part 19 of the report.*

-----------------------------------------------------------------------------------------------------

**C. Papurau Cefndir/Background Papers**

Dim / *None*

-----------------------------------------------------------------------------------------------------

**CH. Goblygiadau Polisi/Policy Implications**

Mae'r adroddiad yn gosod polisi trethiant Cyngor am y pedair blynedd i ddod.

*The report sets a taxation policy for the next four years.*